# Y Pwyllgor Archwilio AC 03-03(P3)

## Agenda

Dyddiad: 27 Mawrth 2003
Amser: 09:10
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen Newid Strwythur GIG Cymru: Adolygiad o gostau trosiannol a chostau cynnal y strwythurau newydd

## Ionawr 2003

## Rhaglen Newid Strwythur GIG Cymru: Adolygiad o gostau trosiannol a chostau cynnal y strwythurau newydd

### Cyflwyniad

1. Ym mis Mai y llynedd, gofynnwyd i mi gan Gyfarwyddwr GIG Cymru i adolygu cyllidebau costau trosiannol a chostau cynnal y strwythurau GIG newydd a fydd yn effeithiol o 1 Ebrill 2003. Trafodwyd fy nghanfyddiadau fel y'u nodir yn fy llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2002 (Atodiad A) ac ymateb Cyfarwyddwr GIG Cymru dyddiedig 12 Rhagfyr 2002 (Atodiad B) gan Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chan y Cynulliad ar 18 Rhagfyr 2002 mewn cyfarfod llawn. Wedi hynny, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i mi ei gynghori ar agweddau ar fy llythyr a fyddai o fudd iddo fynd ar eu trywydd.

### Cefndir

2. Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd costau cynnal y strwythur newydd yn fwy na chostau'r strwythur presennol. Ychwanegodd y byddai'r costau trosiannol oddeutu £12.5 miliwn i £15.5 miliwn ar ben y costau cynnal presennol. Mae'r gyllideb yn fater i'r Gweinidog Cyllid ac yn y pen draw i'r Cynulliad llawn gytuno arno. Nid fy nghyfrifoldeb i yw materion o'r fath.

3. Ceisiodd fy adolygiad i gadarnhau cyfansoddiad y costau cynnal presennol a'u cymharu â chostau cynnal y strwythurau newydd yn y gyllideb gynllunio. Yn ogystal archwiliais gyfansoddiad y gyllideb ar gyfer costau trosiannol. Roedd y gwaith hwn yn fuddiol oherwydd bydd y cyllidebau hyn yn sail cymhariaeth â'r alldro yn y dyfodol. Rwyf yn bwriadu gwneud sylwadau at yr alldro yn fy adroddiadau blynyddol ar sefyllfa ariannol GIG Cymru.

4. Nodir fy nghanfyddiadau'n llawn yn y llythyr ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- amcangyfrifir cyfanswm costau cynnal y strwythur presennol gan Adran GIG Cymru i fod yn £71.1 miliwn. Rwyf yn fodlon ar sail yr amcangyfrif hwn ond efallai y bydd yn rhaid ychwanegu rhai costau iechyd cyhoeddus;
- cyfanswm y gyllideb gynllunio ar gyfer costau cynnal y strwythurau newydd yw £79.6 miliwn. O ganlyniad rhaid arbed £8.5 miliwn sef tua 10.7 y cant o'r gyllideb gynllunio er mwyn sicrhau niwtraledd o ran cost;
- nid oedd yn amlwg i mi sut y gellir gwneud arbedion ar gostau cynnal yn ymarferol gan eu bod wedi eu pennu fel targedau ond nid oes dim sicrwydd y'u cyflawnir. Mae Adran GIG Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru wedi nodi arbedion angenrheidiol i'w cyllidebau ond mae angen rhagor o waith cynllunio gweithredol i nodi cynilion i rannau eraill o'r strwythur. Bydd cyflawni'r arbedion hyn yn dibynnu ar nifer a gradd y staff yn y cyrff newydd ac ar gostau eu adeiladau sy'n gyfyng iawn i Fyrddau Iechyd Lleol. Hefyd, efallai y bydd angen buddsoddiad ychwanegol ar y Ganolfan Gwasanaethau Busnes er mwyn bod yn effeithlon yn y tymor canolig;
- amcangyfrif Adran GIG Cymru y bydd y mwyafrif o'r costau trosiannol rhwng £12.5 a £15.5 miliwn yn bennaf ar gyfer diswyddo a chostau seilwaith sy'n gysylltiedig â symud adeilad; ac
- mae cryn ansicrwydd ynglyn â llawer o'r costau trosiannol hyn yn arbennig ar gyfer costau diswyddo ac adeiladau. Mae angen adolygu'r rhain wrth i'r gofynion hyn ddod yn fwy clir ond byddai'n amser da cynnwys cyllideb ar gyfer costau annisgwyl neu hapddigwyddiadau.

5. Gwneuthum chwe argymhelliad yn fy llythyr i Gyfarwyddiaeth y GIG gan gynnwys:

- yr angen i adolygu lefelau adeiladau a'r costau TG o ganlyniad i'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am ofynion staff;
- yr angen i gwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl y gwaith cynllunio gweithredol angenrheidiol er mwyn sicrhau arbedion o £8.5 miliwn heb amharu ar gyflwyno'r swyddogaethau arfaethedig;
- yr angen i adolygu yn fanylach sut y bydd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gweithredu o fewn eu cyllidebau diwygiedig heb beryglu'r gwasanaeth;

- yr angen am adolygiad manylach am gostau trosiannol staff pan ddaw'r prif resymau am y rhain yn fwy amlwg;
- yr angen am gael darpariaethau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi'u rheoli'n dynn ; a
- datblygu gweithdrefnau i fonitro'r costau cynnal fel y gellir asesu effaith ariannol y rhaglen Newid Strwythur yn llawn.

Mae Cyfarwyddwr GIG Cymru wedi derbyn fy argymhellion i gyd (gweler atodiad B)

**Materion y gellid eu trafod gan y Comisiwn Archwilio**

7. Efallai y bydd y Comisiwn Archwilio am gymryd tystiolaeth oddi wrth Gyfarwyddwr GIG Cymru ar faterion allweddol rheoli arian a nodwyd yn fy archwiliad sef:

- y cynnydd a wnaed i nodi holl gostau cynnal y strwythur presennol (ni nodwyd peth gwariant ar iechyd cyhoeddus yn ystod fy archwiliad);

- y cynnydd a wnaethpwyd i orffen y gwaith cynllunio gweithredol am y rhannau hynny o'r strwythur newydd nad oedd wedi nodi'r arbedion angenrheidiol i weithredu o fewn eu cyllidebau diwygiedig pan wneuthum fy archwiliad. Yn arbennig efallai y bydd y Pwyllgor am ganolbwyntio ar y rhannau pwysig a nodwyd yn fy llythyr sef Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a chostau adeiladau i'r Byrddau Iechyd Lleol;

- sut y bydd Adran GIG yn rheoli'r risgiau i gyflwyno'r gwasanaethau (mae rhan helaeth o'r arbedion angenrheidiol o £8.5 miliwn oherwydd costau uwch na'r disgwyl gogyfer ag aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr gweithredol y Byrddau Iechyd Lleol sy'n £5.4 miliwn yn fwy nag yn yr Awdurdodau Iechyd).

8. Wrth gwrs, byddwn yn fwy na pharod i gynorthwyo'r Pwyllgor i fynd ar drywydd y mater hwn.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
***16 Ionawr 2003***

*3-4 Plas y Parc*
*Caerdydd CF10 3DP*